Cefnogi Busnesau yng Ngwynedd
Supporting Businesses in Gwynedd

CYNGOR GWYNEDD COUNCIL

# Bwletin Gwasanaeth Cefnogi Busnes Gwynedd 11.10.2022

- Mae hwn yn fersiwn Gymraeg o ddau e-bost sydd yn cael eu gyrru allan, mae fersiwn Saesneg yn dilyn – gellir gweld holl fwletinau sydd wedi eu gyrru ar: https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19

- This is the Welsh version of two emails sent out, the English version will follow – all sent bulletins can be accessed on: https://www.gwynedd.llyw.cymru/businesscovid19

# ARIANNU: Cyllid Sgiliau i Gyflogwyr A Gweithwyr (SEE)

Gan dargedu sectorau allweddol yn cynnwys bwyd, economi ddigidol, gwyddorau bywyd ac iechyd, gweithgynhyrchu uwch, twristiaeth, adloniant a hamdden, gofal, adeiladu ac ynni a charbon isel, mae prosiect Sgiliau i Gyflogwyr a Gweithwyr Coleg Cambria yn helpu busnesau wedi’u lleoli yng Ngogledd Cymru i ddatblygu sgiliau staff a chreu gweithlu arbennig o gymwys. Darganfyddwch mwy am gyllid SEE ar:

https://www.cambria.ac.uk/cyflogwyr/cyllid-i-gyflogwyr-a-gweithwyr/?lang=cy

# TRAFNIDIAETH: Cynlluniau yn eu lle ar gyfer effeithiau tywydd posibl ar Bont Britannia

Mae cynlluniau yn eu lle i ddelio ag effaith bosibl stormydd y gaeaf ar gerbydau nwyddau trwm sy'n teithio i Ynys Môn ac oddi yno tra bo cyfyngiadau pwysau mewn grym ar Bont Menai. I ddarllen mwy, ewch i:

https://llyw.cymru/cynlluniau-yn-eu-lle-ar-gyfer-effeithiau-tywydd-posibl-ar-bont-menai

# ARIANNU: Busnesau yn elwa o Grant Gwella Eiddo Canol Trefi Cyngor Gwynedd

Mae Cyngor Gwynedd wedi rhyddhau datganiad parthed sut mae busnesau yn yr ardal wedi elwa o fuddsoddiad o £500,000 o'r Grant Gwella Eiddo Canol Trefi a weinyddir gan y Cyngor. I ddarllen y datganiad yn llawn, ewch i:

https://bit.ly/DatganiadGwynedd07Hyd2022

Mae'r Grant Gwella Eiddo Canol Tref wedi ei ymrwymo'n llawn, ond mae Cyngor Gwynedd hefyd yn darparu benthyciadau di-log i helpu i uwchraddio adeiladau canol tref – gellir defnyddio'r benthyciad i wella'r eiddo ar gyfer perchnogaeth barhaol, i'w werthu, i'w osod, neu i wneud defnydd o safle gwag. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

http://bit.ly/CronfaCanolTref

# CYFLE: Cynllun Gwella Platfform Digidol

Mae dal cyfle i fusnesau, yn y sectorau lletygarwch a bwyd a diod yng Ngwynedd, i gymryd rhan mewn cynllun newydd gan Gyngor Gwynedd i wella eu Platfform Digidol. Bydd y prosiect yn cydweithio gyda Cyflymu Cymru i Fusnesau er mwyn adnabod anghenion digidol busnes, ac yna'n cynnig cefnogaeth mentora a

hyfforddiant i uwchraddio sgiliau digidol y busnes. Am fwy o wybodaeth, ewch i:

https://bit.ly/3AuERGR

Neu e-bostiwch: PlatfformDigidol@gwynedd.llyw.cymru

# DIGWYDDIADAU: FSB

Mae gan FSB nifer o ddigwyddiadau ar gael yn ystod yr wythnosau nesaf yn ymdrin ag ystod o bynciau gan gynnwys sut i osod nodau ar eich cyfer chi a'ch busnes, rhwydweithio, lles a defnyddio offer digidol i yrru twf. I ddarganfod mwy am holl ddigwyddiadau FSB, ewch i:

https://www.fsb.org.uk/event-calendar.html

# DIGIDOL: Pum ffordd o hysbysebu eich busnes bach ar-lein

Bydd hysbysebu eich busnes ar-lein yn eich galluogi i gynyddu eich presenoldeb ar-lein, sicrhau eich bod yn cael eich gweld gan gynulleidfa ehangach o lawer, yn ogystal â'ch helpu i drosi busnes posibl yn fusnes go iawn. I'ch helpu i ddechrau, mae Cyflymu Cymru i Fusnesau yn dangos pum ffordd y gallwch chi farchnata eich busnes bach yn effeithiol ar-lein. Mae mwy am hyn ar:

https://businesswales.gov.wales/superfastbusinesswales/cy/cronfa-wybodaeth/pum-ffordd-o-hysbysebu-eich-busnes-bach-ar-lein

---

Mae mwy o wybodaeth defnyddiol i'w gael o:

# Cyngor Gwynedd – Cefnogaeth i Fusnes

https://www.gwynedd.llyw.cymru/busnescovid19
https://twitter.com/BusnesGwynedd

## Rhwydwaith Busnes Gwynedd

https://www.gwyneddbusnes.net/Hafan
https://twitter.com/gwyneddbusnes

## Busnes Cymru

https://businesswales.gov.wales/coronavirus-advice/cy/
https://twitter.com/_busnescymru

## Busnes@llandrillomenai

https://www.facebook.com/BusnesatLlandrilloMenai/posts
https://twitter.com/busnesLLM

## FSB Cymru

https://twitter.com/FSB_Wales

## Croeso Cymru

https://twitter.com/croesocymrubus

Cofrestru i dderbyn y newyddion diweddaraf
https://bit.ly/3klWPAU

---

Os nad ydych yn dymuno derbyn yr e-byst hyn bellach, os oes gennych gwestiwn, neu angen cyngor:
E-bostiwch busnes@gwynedd.llyw.cymru